# Hunlun!

Mewn grŵp, trafodwch syniadau eraill am yr hyn all fynd o'i le wrth dynnu hunlun. Efallai y gallwch chi rannu profiadau personol!

Trafodwch syniadau doniol a diniwed, yna trafodwch pryd y gall tynnu hunlun fod yn beryglus. Ceisiwch feddwl am fwy nag un enghraifft i'w rhoi yn y grid.

| Doniol | Peryglus |
| --- | --- |
| | |

Dewiswch un o'r straeon doniol a sgriptiwch sgets hwyliog.

Dyma bwyntiau i'ch helpu chi i fynd ati i sgriptio:

- Cofiwch osod y sefyllfa – pwy a ble?
- Gallwch chi roi cyfarwyddiadau i actorion, gan gynnwys i ble maen nhw'n symud a sut maen nhw'n dweud rhywbeth.
- Defnyddiwch iaith glir yn y cyfarwyddiadau ond iaith lafar yn y ddeialog.
- Meddyliwch am ymatebion eich cymeriadau. Oes rhaid defnyddio geiriau bob tro?

**Pob lwc!**